# CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Medi 2, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Bob Gunton (Maer)
Y Cynghorydd Nia Evans (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Jo Checkley, Ray Peters, Branwen Rhys Dafydd, Dyfrig Siencyn, Liz Hughes, Heilyn Williams, Peter Jones
Mr Rhys Williams – Clerc

**C.43.2025-2026 SESIWN CYHOEDDUS**

Cyflwyniad gan Mr Robert Hulme - cyflwyniad ar y posibilrwydd o sefydlu 'pump track' ger hen safle Parc Sglefrolio y Cyngor.
Diolchwyd i Mr Hulme .
**Penderfynwyd:** Cynnal cyfarfod o'r Is-grŵp Parc Sglefrolio, megis:
Y Maer, Dirprwy Faer, Sion Edwards, Branwen Rhys Dafydd a Jessica John. er mwyn cyfarfod ymhellach gyda Mr Hulme.

**C.44.2025-2026 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Jessica John, Sion Edwards ac Ywain Myfyr.

**C.45.2025-2026 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb, ond croesawyd y Cynghorydd Liz Hughes i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor Tref.

**C.46.2025-2026 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR ORFFENNAF 1, 2025**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C.47.2025-2026 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1.1 **MATERION A GODWYD O GOFNODION BLAENOROL**

### 1 Prosiect Hwb / Lle yn y Dref

**1. Symud ymlaen gyda 'Prosiect Hwb Cymunedol'.**

**Penderfynwyd**: Cyflwyno swydd disgrifiad ar gyfer y swydd cydlynydd.
Edrych ar wefan Cyngor Tref Prestatyn er mwyn derbyn syniadau ar gyfer marchnata / hybu'r fath yma o fenter.
Cytuno i'r Cynghorwyr Nia Evans a Jessica John i symud ymlaen gyda'r gwaith o ymgeisio am grant SPF1 (£18,000).
**Yr uchod bellach wedi digwydd. Posibilrwydd o dderbyn grant SPF pellach (£20,000). Penodiad i swydd 3 diwrnod yr wythnos wedi ei wneud. Addasiadau i swyddfa yn y Llyfrgell Rydd ei angen**
**Penderfynwyd: 1.** Cytuno gyda'r addasiadau yn y Llyfrgell Rydd.
**Penderfynwyd 2:** Cofnodion o gyfarfod diwethaf o gyfarfod adfywio Canol y Dre oddi wrth Y Cynghorydd Jessica John i'w rhannu i bawb.

**2. Cynllun adfywio canol tref Dolgellau / Partneriaeth Dolgellau**

**Penderfynwyd:** Gwahodd aelodau Partneriaeth Dolgellau i gyfarfod mis Hydref 2025 y Cyngor i drafod rheolaeth / cyfrifoldeb Parc y Dref i'r dyfodol.

**2. Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Dirprwy Faer yn adrodd ar trefniadau i dendro am y gwaith i sefydlu cofeb barhaol ar y safle yn dilyn caniatâd oddi wrth y Parc Cenedlaethol. Bydd angen cadw golwg ac ail ymgeisio i'r gofeb parhau gyda'r Parc Cenedlaethol am fwy na 10 mlynedd. Nodwyd hefyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Tref fydd cynnal a chadw'r gofeb / safle.
**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad.

**Materion pellach yn codi:**

iv) **Trwydded Adloniant Cyhoeddus i'r Sgwâr**
**Cyflwynwyd:** Dim i'w adrodd ar y funud.

v) **Cwynion Materion Parcio - Safle'r Marian (Ffyrdd o allu talu a hefyd chargio ceir trydan)**
**Cyflwynwyd:** Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion yma.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

**C.48.2025-2026 SEFYLLFA ARIANNOL**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y sefyllfa ariannol oddi wrth y Clerc. Llawer mwy effeithiol na dibynnu ar feddalwedd 'Excel' Microsoft.
**Cyflwynwyd** yn Ogystal: Cyflwyniad gan y Clerc ar system ariannol a chyllido oddi wrth Cwmni 'Scribe'. Hyn eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor.
**Penderfynwyd:** Derbyniwyd y cyflwyniad. Y Clerc i gynnwys balansau misol yn y cyfrifon o hyn ymlaen.

**Cyfarfod o'r is-bwyllgor Cyllid i'w gynnal ar 30.09.2025. Y Clerc, Y Maer, Y Dirprwy Faer, Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Dyfrig Siencyn, Peter Jones, Jo Checkley (os yw hyn yn ymarferol o safbwynt Y Clerc).**

**Cyflwynwyd Hefyd:** Manylion o grant a dderbyniwyd oddi wrth Cyngor Gwynedd (Gwynedd Ni) o £7413.94 wedi ei gymeradwyo.
Diolchwyd i'r Maer am ei waith ar hyn.

**C.49.2025-2026 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. <u>**Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref**</u>

i) **Y Cynghorydd Bob Gunton (Maer)**
Dathlu 50 mlynedd o efeillio gyda Guerande.
**Penderfynwyd:** I ysgrifennu at Faer Guerande i gysylltu am hyn. Y Dirprwy Faer a'r Cynghorwyr Ywain Myfyr a Liz Hughes i arwain ymhellach ar y mater yma.

ii) **Y Cynghorydd Ray Peters**
Er gwybodaeth, mae 1 x coeden bellach wedi cwympo ger annedd Bryn Mair.

iii) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** - 2 X gyfarfod o Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams**.**

iv) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd**
Gwaith o hel sbwriel yn y Parc pob wythnos a gwaith gyda digwyddiad Sesiwn Fawr 2025.

v) **Y Cynghorydd Nia Evans**
Eisoes wedi adrodd o dan materion yn codi.
Cinio Nadolig 2025 i'w ystyried.

vi) **Y Cynghorydd Heilyn Williams**
Mynychu cyfarfod o Is-bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

vii) **Y Cynghorydd Liz Hughes**
Gwaith Gwirfoddoli gyda Sesiwn Fawr 2025

viii) **Y Cynghorydd Peter Jones**
Pryder ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth presennol y Swyddfa Bost yn y dref.
**Penderfynwyd:** Ysgrifennu at y Swyddfa Bost i fynegi pryder ynghylch diffyg darpariaeth ffurflenni o unrhyw fath yn yr iaith Gymraeg ac ynghylch lleiafswm o staff cownter sydd a'r gallu i siarad yr iaith Gymraeg, drwy hefyd nodi y Protest a gymerwyd am yr union gŵyn yn ôl yn 1965.

ix) **Y Cynghorydd Jo Checkley**

Aros am gopi meddal

x) **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
Gwaith sylweddol o ail adeiladu Canolfa Dolfeurig yn mynd yn ei flaen yn llwyddiannus. Gwaith tacluso Tŷ Meurig yn mynd ymlaen. Wedi mynychu Eisteddfod Genedlaethol 2025

**C.48.2025-2026 ADRODDIADAU CYNGHORWYR GWYNEDD SIROL**

**Dim i'w adrodd**

**C.49.2025-2026 GOHEBIAETH**

Derbyniwyd y canlynol er gwybodaeth:

1. Trychineb Llyn Penmaen - Susan Barnes. Apêl i fynychu cyflwyniad agoriad swyddogol o'r Gofeb er cof y digwyddiad - wedi ei gydnabod.

2. Digwyddiad o ffilmio yn Nolgellau yn ystod mis Medi 2025 - awgrymwyd i'r cwmni perthnasol hefyd gysylltu gydag Uned Economi Cyngor Gwynedd.

3. Sian Gwenllian, Aelod Seneddol Dros Arfon - ymgyrch i sefydlu Uned Hyfforddi Deintyddol ym Mangor. **Penderfynwyd:** Cefnogi'r ymdrech yma eto.

4. Grwp Rheoli Gardd Bywyd Gwyllt Felin Uchaf – cais am gyfraniad ariannol.
   **Penderfynwyd**: Cyfrannu £500 tuag at yr achos

**C.50.2025-2026 MATERION CYNLLUNIO**

Cais Rhif: NP5/57/CAL650C Caniatâd Ardal Cadwraeth i ddymchwel wal i ffurfio mynediad cerddwyr Tegfryn, 4 Bryn Teg, Dolgellau, LL40 1ST Cyfeiriad Grid: 272745 317564 received.
Application Number: NP5/57/CAL650C Conservation Area Consent for the demolition of a wall to form pedestrian access Tegfryn, 4 Bryn Teg, Dolgellau, LL40 1ST

**O wybodaeth o’r ardal dan sylw,sylwadau y Cyngor yw I holi a yw y perchennog cyfagos yn ymwybodol o’r cais yma gan fod y cais gyda bwriad i greu mynediad Newydd i Tegfryn.**

Cais Rhif: NP5/57/LB406A Caniatâd Adeilad Rhestredig i drosi'r adeilad allanol yn llety atodol mewn cysylltiad â'r defnydd Gwely a Brecwast, newidiadau mewnol ac allanol a gosod pwmp gwres ffynhonnell aer Bryn Mair, Dolgellau. LL40 1SR Cyfeiriad Grid: 272602 317572 The planning application described below has been received. Application Number: NP5/57/LB406A Listed Building Consent to convert the outbuilding into an annexe accommodation in connection with the Bed and Breakfast use, internal and external alterations and the installation of an air-source heat pump Bryn Mair, Dolgellau. LL40 1SR

**Mae gan y Cyngor Tref bryderon gyda’r cais hwn gan nad yw’r ymgeisydd wedi cysylltu cyn cyflwyno’r cais hwn mewn ardal lle mae gan y Cyngor Tref gyfrifoldeb. (Coed Ffynnon Fair) Nid yw’r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw hawliau rhyddfreinio i berchennog yr eiddo ar gyfer y ffordd fynediad hon ac, os câi ei ganiatáu, byddai newid o’r fath yn arwain at newid sylweddol i natur yr ardal, gan arwain at drefoli’r ardal.**

Cais Rhif: NP5/57/LB406B Trosi adeilad allanol yn llety atodol mewn cysylltiad â'r defnydd Gwely a Brecwast, newidiadau mewnol ac allanol a gosod pwmp gwres ffynhonnell aer Bryn Mair, Dolgellau. LL40 1SR Cyfeiriad Grid: 272602 317572
The planning application described below has been received. Application Number: NP5/57/LB406B Conversion of outbuilding into annexe accommodation in connection with the Bed and Breakfast use, internal and external alterations and the installation of an air source heat pump. Bryn Mair, Dolgellau. LL40 1SR

**Dim sylwadau penodol ond mae’r cais yma yn gysylltiedig gyda’r cais uchod yn berthynas i fynediad.**

Cais Rhif: NP5/57/789A Newidiadau i ffrynt siop a ffenestri Lemon Grass, Tŷ Cambrian, Porth Canol, Dolgellau. LL40 1RE Cyfeiriad Grid: 272750 317717 The planning application described below has been received. Application Number: NP5/57/789A Alterations to shopfront and windows. Lemon Grass, Cambrian House, Finsbury Square, Dolgellau. LL40 1RE Grid Reference: 272750 317717

**Mae’r Cyngor yn cefnogi’r cais.**